

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU, TAI AC ASEDAU
19 MAI 2021

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau, Tai ac Asedau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Mercher, 19 Mai 2021.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Ron Davies, Mared Eastwood, Veronica Gay, Ray Hughes, Dennis Hutchinson a Kevin Rush

DIRPRWYON: Y Cynghorwyr: Sean Bibby (dros Geoff Collett), Rob Davies (dros Helen Brown) a Patrick Heesom (dros Brian Lloyd)

HEFYD YN BRESENNOL: Roedd y Cynghorydd David Wisinger yn bresennol yn arsylwi

CYFRANWYR: Y Cynghorydd Dave Hughes (Aelod Cabinet Tai); y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau), Ymgynghorydd Polisi Strategol a Rheolwr Budd-Daliadau- ar gyfer cofnod rhif 55 a Rheolwr Gyfarwyddwr cwmni Glanhau ac Arlwyg NEWydd Cyf – ar gyfer cofnod rhif 57

HEFYD YN BRESENNOL: Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

52. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

53. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2021 fel cofnod cywir a chawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Ron Davies a Kevin Rush.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2021 hefyd fel cofnod cywir a chawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Ron Davies a Mared Eastwood. Ar gofnod rhif 48, dywedodd y Cynghorydd Patrick Heesom fod rhai cymunedau hefyd yn cael eu heffeithio gan denantiaid llety rhent preifat sy'n methu â chynnal a chadw'r eiddo. Byddai'r Hwylusydd yn cymryd camau gweithredu ar ei gais am eitem ar hyn yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

54. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol er mwyn ei hystyried, yn cynnwys newidiadau ers y cyfarfod blaenorol. Byddai dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer blwyddyn y cyngor 2021/22 yn cael eu llenwi pan fydd y Cyngor wedi cytuno ar y Rhestr Cyfarfodydd. Roedd yr holl

gamau gweithredu a oedd yn codi o'r cyfarfodydd blaenorol wedi cael eu cwblhau.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig gan y Cynghorydd Patrick Heesom, ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Ron Davies.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;
- (b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
- (c) Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

55. Y DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL YN DECHRAU

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Polisi Strategol adroddiad ar baratodau'r Cyngor at pan fydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn dechrau. Roedd hwn yn ofyniad statudol ar gyrff cyhoeddus perthnasol i roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau canlyniadau yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Rhoddodd yr Ymgynghorydd Polisi Strategol a'r Rheolwr Budd-Daliadau gyflwyniad ar y cyd ar y canlynol:

- Beth yw'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a beth mae'n ei wneud?
- Termau allweddol
- Anghydraddoldebau canlyniadau
- Enghreifftiau o dlodi
- Dangos sylw dyledus - trywydd archwilio
- Bodloni'r ddyletswydd – yr hyn rydym yn ei wneud
- Canlyniadau gwell
- Astudiaeth achos

Roedd y Rheolwr Budd-Daliadau yn croesawu'r ddeddfwriaeth i helpu i gefnogi gwaith ar drechu tlodi, oedd yn un o'r meysydd blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor. Tynnodd y cyflwyniad sylw at y rhwymedigaethau ychwanegol sydd eu hangen yn y sector cyhoeddus i gyflawni'r Ddyletswydd, nad oedd o anghenraid yn golygu costau ychwanegol. Roedd ystyried ac ymgynghori'n gynnar yn allweddol i sicrhau bod lleisiau'n cael eu clywed a bod tystiolaeth yn cael ei chasglu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y cyflwyniad ac mewn ymateb i gwestiwn, rhoddodd wybodaeth am y broses ymgynghori i gasglu a deall data i lywio darpariaeth y gwasanaeth.

Wrth gynnig yr argymhellion, mynegodd y Cynghorydd Patrick Heesom ei bryder nad oedd y Ddyletswydd wedi ei blaenoriaethu gan Lywodraeth Cymru i'w

rhoi ar waith yn gynharach. Roedd y Cynghorydd Ron Davies yn cytuno, ac felly eiliodd yr argymhellion.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi gofynion y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol; a
- (b) Bod y Pwyllgor wedi'i sicrhau am barodrwydd y Cyngor i fodloni'r ddyletswydd newydd.

56. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Cynigiwyd gwahardd y wasg a'r cyhoedd gan y Cynghorydd Patrick Heesom, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ron Davies.

PENDERFYNWYD:

Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod gan fod yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried yn wybodaeth wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

57. GLANHAU AC ARLWYO NEWydd

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr cwmni Glanhau ac Arlwyo NEWydd Cyf y wybodaeth ddiweddaraf ar effaith y sefyllfa frys ar y Cynllun Busnes ar gyfer Gwasanaethau Glanhau ac Arlwyo NEWydd.

Wrth roi trosolwg o berfformiad yn 2020/21, tynnwyd sylw at y pwysau sylweddol yn codi o'r sefyllfa frys genedlaethol, ynghyd â datblygu modelau darparu gwasanaeth newydd i fodloni anghenion defnyddwyr gwasanaethau a sicrhau diogelwch gweithwyr. Rhannwyd cynllun busnes diwygiedig i gefnogi adferiad busnes ac ailadeiladu ar gyfer y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Gyfarwyddwr am ei adroddiad manwl.

Dywedodd y Cynghorydd Patrick Heesom fod yr adroddiad yn atgyfnerthu'r heriau oedd yn codi o'r sefyllfa frys. Wrth gyfeirio at bwysigrwydd cynnal y cyflenwad o brydau ysgol am ddim, nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr ei gais am i Aelodau lleol gael gwybod am unrhyw newidiadau.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig gan y Cynghorydd Ron Davies, ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Patrick Heesom.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r newidiadau a wnaed i'r Cynllun Busnes ac Amcanion Strategol y busnes a gafodd eu heffeithio'n ddifrifol gan y pandemig; a

- (b) Bod y Pwyllgor yn nodi cyflawniadau NEWydd yn ystod y flwyddyn anodd hon a chefnogi'r busnes drwy ei gam adferiad ac ymlaen tuag at y cynlluniau ar gyfer twf yn y dyfodol.

58. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 11am a daeth i ben am 12.00pm)

.....
Y Cadeirydd